# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd) |
| | **Yr Awdurdod Addysg** |
| | Cynghorwyr Gwilym O Jones, Alun W Mummery, Alun Roberts |
| | **Yr Enwadau Crefyddol** |
| | Parch Jim Clarke (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)<br>Mrs Elaine Green (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)<br>Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)<br>Parch Debra Stammers (Undeb Bedyddwyr Cymru)<br>Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig) |
| | **Cynrychiolwyr yr Athrawon** |
| | Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)<br>Mr Owain Roberts (Ysgol Cybi)<br>Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch) |
| | **Aelodau Cyfetholedig** |
| | Mr Rheinallt Thomas |
| **WRTH LAW:** | Mrs Gwyneth M Hughes (Uwch Reolwr Lles, Addysg)<br>(Ymgynghorydd AG CYSAG)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mrs Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)<br>Mr Gerald Hewitson (Y Crynwyr)<br>Cynghorydd Bryan Owen |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol, ac estynnodd groeso yn benodol i’r Parchedig Debra Stammers i’w chyfarfod CYSAG cyntaf.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod CYSAG blaenorol a gynhaliwyd 26 Mawrth 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**Materion yn codi o'r cofnodion:-**

Cadarnhawyd fod yr Ymgynghorydd AG wedi cyfleu gwerthfawrogiad CYSAG i Mr Rhys Hearn am gyflwyno adroddiad hunanwerthuso Ysgol Gynradd Kingsland i'r CYSAG.

## 3 RHANNU GWYBODAETH GYDAG ATHRAWON AR LWYFAN ELECTRONIG

Adroddodd yr Ymgynghorydd AG fod Mr Owen Davies, Adran Addysg wedi datblygu safle-micro i rannu adnoddau gydag ysgolion yn Ynys Môn. Gofynnwyd am adborth gan gynrychiolwyr athrawon CYSAG ynghylch y llwyfan electronig.

Fe wnaeth cynrychiolwyr athrawon CYSAG ymateb eu bod yn croesawu'r datblygiad o'r safle-micro, a oedd yn profi ei hun yn adnodd hynod ddefnyddiol i ysgolion, am ei fod yn cynnwys ystod o wybodaeth, sydd ar gael mewn un man penodol. Adroddodd yr athrawon fod polisïau, dolenni i hyfforddiant, diweddariadau Covid-19, ac unrhyw wybodaeth a rannir ag athrawon yn cael ei uwchlwytho i'r safle.

Er bod y llwyfan electronig yn ei gam cychwynnol, mae hi'n amlwg bod angen i athrawon ac ysgolion weithio gyda'r Adran Addysg i gynnal lefel wybodaeth sylweddol o fewn y safle-micro. Nodwyd y bydd cadw'r llwyfan wedi ei diweddaru gyda gwybodaeth sy'n esblygu'n barhaus yn her, ynghyd â sicrhau fod y cynnwys yn ddwyieithog. Bydd y Panel Gweithredol CYSAG ar gyfer Ysgolion yn rhan o'r broses.

Fe wnaeth CYSAG ganmol ansawdd ardderchog adnoddau CBAC ar Hwb, ond mynegwyd pryder fod diffyg o rai adnoddau AG Cymraeg ar y safle yn parhau.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 4 CYFLWYNIAD AR WAITH Y PANEL GWEITHREDOL CYSAG YSGOLION

Am fod Mrs Helen Roberts yn absennol o gyfarfod heddiw, rhoddodd yr Ymgynghorydd AG ddiweddariad ar faterion presennol sy'n berthnasol i ysgolion yr Ynys. Adroddodd ei bod yn gyfnod hynod heriol i ysgolion Ynys Môn, gydag ysgolion uwchradd yn gweithredu fel canolfannau asesu ac arholi, gan osod graddau TGAU a Lefel A. Nodwyd fod athrawon o'r ysgolion uwchradd wedi cyfarfod ar sawl achlysur i drafod y broses asesu, ac i sicrhau cysondeb eu gwaith, fel bod yr holl ddisgyblion yn cael eu trin yn deg.

Adroddodd yr Ymgynghorydd AG fod Penaethiaid wedi gorfod ymateb i heriau o ran gofynion Iechyd a Diogelwch oherwydd Covid-19, yn benodol lles disgyblion a staff. Mae ysgolion hefyd wedi bod yn brysur yn gweinyddu grantiau cymorth, sydd wedi golygu llawer o waith gweinyddol a gweithio o fewn terfynau amser.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 5 DIWEDDARIAD GAN YR YMGYNGHORYDD AG AR YMGYNGHORYDDIADAU LLYWODRAETH CYMRU

Adroddodd yr Ymgynghorydd AG ar Gwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE), a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2022. Nododd y bydd y newidiadau o'r cwricwlwm yn cael goblygiadau enfawr ar ysgolion ym mhob pwnc.

Canolbwyntiodd y trafodaethau ar p'un ai yw'r arweiniad yn ddigon eglur a chadarn ar gyfer athrawon? Amlygodd CYSAG fod athrawon angen cefnogaeth, arweiniad ac adnoddau dwyieithog o safon er mwyn symud ymlaen, ac fe groesawyd penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi mwy o adnoddau i mewn i ddysgu proffesiynol. Nodwyd fod risgiau mewn caniatáu i ysgolion ddewis eu cwricwlwm eu hunain, am na fyddai rhai ysgolion o bosibl yn rhoi sylw dyladwy i AG o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Nodwyd hefyd y bydd rhaid i'r CYSAGau fod yn ddigon agored er mwyn galluogi ysgolion unigol gael eu syniadau eu hunain i'w datblygu.

Yn dilyn cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 16eg o Fehefin 2021, anfonwyd adborth gan Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSGau Cymru i'r CYSAGau ar ffurf cyflwyniad PowerPoint.

Mynegodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad o'r sleidiau meddyliau cynnar gan Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru, ac awgrymodd y dylai CYSAG Ynys Môn ystyried eu hymatebion yn unigol cyn darllen adborth Cymdeithas CYSAGau Cymru. Gofynnodd i'r sylwadau ar yr ymgynghoriad gael eu hanfon ymlaen i'r Ymgynghorydd AG erbyn y 9fed o Orffennaf 2021, i'r CYSAG baratoi ymateb swyddogol erbyn y dyddiad cau o'r 16eg o Orffennaf 2021.

Amlygodd Mr Chris Thomas y pwyntiau canlynol o gyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru mewn ymateb i'r ymgynghoriad :-

- Rhaid rhoi amser digonol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, fel bod yr arweinyddion yn medru datblygu cwricwlwm sylweddol ac uchelgeisiol.
- Mae hyblygrwydd yn bwysig er mwyn i ysgolion fedru adeiladau ar yr hyn sydd wedi ei ddatblygu yn barod a chael perchnogaeth unigol o'u cwricwlwm.
- Bod angen edrych ar gysylltiadau a bod angen dod a nhw at ei gilydd. Cyfeiriwyd at Ganolfan St Giles yn Wrecsam, sydd â fideo hynod ddiddorol a defnyddiol ar sut i ddefnyddio'r canllawiau a dolenni i'r hwb.
- O ran geirfaoedd, mae rhai geiriau penodol angen eglurhad gwell yn Saesneg e.e. "plurality", "worldviews" a "cynefin". Awgrymwyd y byddai defnyddio gair Cymraeg yn y cyfieithiad Saesneg yn pwysleisio ei arwyddocâd.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd yr iaith Gymraeg.
- Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau fod angen cyllid canolog i ddatblygu adnoddau AG ar gyfer dysgu proffesiynol mewn fformat digidol a chopi caled.
- Nid oes optio allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, na gwersi perthnasoedd ac addysg rywiol (RSE).

Mynychodd Mr Rheinallt Thomas gyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru hefyd, ac fe wnaeth ailadrodd beth ddywedodd Mr Chris Thomas, o ran ein bod angen bod yn eglur bod y Maes Llafur Cytûn yn mynd i fod yn wahanol i feysydd llafur y gorffennol. Adroddodd y bydd y Maes Llafur yn cynnwys canllawiau ac amcanion brâs, a rhan ganolog o'r meddwl y tu ôl i'r cwricwlwm yw bod ysgolion yn medru datblygu eu cwricwlwm eu hunain. Amlygodd bwysigrwydd egwyddorion y Fframwaith AG, y bydd yn rhaid i CYSAG Ynys Môn ddod i benderfyniad unigol yn ei gylch pan fydd yn ei ffurf derfynol.

Nodwyd fod yr Eglwys yng Nghymru yn gweithio ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru ar gwricwlwm newydd. Mae'r Eglwys wedi mynegi pryder ynghylch diffyg manylder mewn rhai adnoddau. Mae'r Eglwys eisiau datblygu lens i Gristnogaeth, sydd wedi ei gysylltu â hanes, ac mae hi'n bwysig fod hyn yn cael ei adlewyrchu. Nodwyd ymhellach y bydd yr Eglwys yng Nghymru yn cyflwyno eu hargymhellion eu hunain ar y cwricwlwm.

Adroddodd yr Ymgynghorydd AG y bydd y Panel Gweithredol yn cwrdd y mis hwn i ymateb i'r ymgynghoriad, ac i gyflwyno barn athrawon ar y cwricwlwm.

Adroddodd yr Ymgynghorydd AG ei bod wedi cynnwys y Canllaw a Chod Statudol ar Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb ar yr agenda er gwybodaeth, ac i roi'r opsiwn i'r CYSAG gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**
- **Fod yr Ymgynghorydd AG yn anfon y fideo St Giles i aelodau CYSAG Ynys Môn.**

## 6 DIWEDDARIAD GAN GLERC Y CYSAG AR FATERION ADDYSG GREFYDDOL LLEOL A CHENEDLAETHOL

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd AG ar y cyd-weithio rhwng ysgolion yn Ynys Môn a GwE, mewn perthynas â Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (AoLE). Nododd fod y CYSAG angen sicrwydd o ran beth fydd rôl y GwE o ran cefnogi ysgolion yr Ynys a'r CYSAGau, fel rhan o'r bartneriaeth ar y cyd.

Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd AG y bydd hi a Ms Bethan James, ynghyd â'r Ymgynghorydd Her GwE, yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu syniadau ac arbenigedd AG gydag ysgolion a'r CYSAG.

Er bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran adnoddau AG cyfrwng Cymraeg, mae angen gwneud mwy i wella'r sefyllfa. Teimlodd y CYSAG y dylai GwE roi mwy o bwysau ar y sefydliad i gyflawni, a bydd angen i'r CYSAG gael sicrwydd fod y materion hyn yn cael sylw ar hyn o bryd.

Adroddodd Mrs Manon Williams fod rhai ysgolion yn y sector cynradd wedi dechrau hyfforddiant gyda GwE yn barod, ac yn y cam cyntaf o sut i gyflwyno eu cwricwlwm h.y. a yw'r plant am gael eu dysgu fesul pwnc, neu mewn ffordd fwy integredig, a allai golli neu bellhau oddi wrth AG? Nodwyd fod ysgolion yn y sectorau cynradd ac

uwchradd yn gweithio ar y cyd i sicrhau fod y trosglwyddo rhwng y sector cynradd ac uwchradd yn digwydd heb lawer o darfu, sydd yn fwy o her yn yr ysgolion uwchradd.

Nodwyd fod ysgolion uwchradd Ynys Môn wedi cael cynnig hyfforddiant ar Athroniaeth i blant. Mae tair ysgol gynradd wedi cwblhau'r hyfforddiant eisoes, ac mae Ysgol Uwchradd Bodedern wedi cofrestru ar gyfer y cwrs, a fydd yn cyd-fynd ag AG o ran datblygu Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

**PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd ar y materion AG a godwyd.**

## 7 CYFARFOD Y PANEL YMGYNGHOROL CENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL (NAPFRE) AR 15 MEHEFIN 2021

**PENDERFYNWYD nodi'r rhaglen NAPfRE ar y 15fed o Fehefin 2021 er gwybodaeth.**

## 8 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 23ain o Fawrth 2021, er gwybodaeth. Nodwyd fod Mr Rheinallt Thomas wedi rhoi adborth o'r cyfarfod hwn i'r CYSAG yn y cyfarfod ar 26ain o Fawrth 2021.

Mae ymateb Cymdeithas CYSAGau Cymru i'r Ymgynghoriad Cwricwlwm i Gymru (Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi ei drafod yn eitem 5 ar yr agenda.

Anfonwyd Adroddiad Blynyddol Cymdeithas CYSAGau Cymru ar gyfer 2020/21 a Datganiad o Gyfrifon at y CYSAG, yn dilyn cyhoeddiad yr agenda. Cytunodd y CYSAG i dalu ffi tanysgrifio flynyddol Cymdeithas CYSAGau Cymru o £480 ar gyfer aelodaeth eleni.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yng nghofnodion Cymdeithas CYSAGau Cymru.**
- **Nodi Adroddiad Blynyddol Cymdeithas CYSAGau Cymru ar gyfer 2020/21.**
- **Nodi'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2020/21.**
- **Derbyn ffi aelodaeth Cymdeithas CYSAGau Cymru o £480.**

## 9 UNRHYW FATERION ERAILL

Adroddodd yr Ymgynghorydd AG y bydd y Cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn berthnasol i blant o 3 i 16 oed. O ran Cylchoedd Meithrin, disgwylir y bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei addasu i fod yn addas i blant o 3 oed.

Adroddodd y Parchedig Jim Clarke am ddarpariaeth y Mudiad Meithrin o adnoddau AG. Cyfeiriodd at yr adnodd 'Dewch i Ddathlu', a nododd ei fod yn becyn cynhwysfawr ac ardderchog ar gyfer addysg meithrin. Nodwyd mai Mrs Helen

Roberts, aelod o Banel Gweithredol CYSAG, sydd wedi creu'r adnodd, a'i gomisiynwyd gyda chyllid grant gan Lywodraeth Cymru.

Adroddodd Parch. Clarke fod chwe uned sy'n cwmpasu prif grefyddau'r byd, ynghyd ag amserlen i gyflwyno'r gwahanol ddathliadau crefyddol. Mynegodd bryder fod yr adnodd nawr yn orfodol i rai plant yn Ynys Môn o dair oed, ac yn agor y drws i aml-grefyddau i blant o dan 5 oed.

Codwyd pryderon na allai blant mewn addysg meithrin ymdopi gyda dysgu am wahanol grefyddau o oedran mor ifanc, ac fe awgrymwyd fod y CYSAG yn monitro addysg meithrin o fis Ionawr 2022.

Cynigwyd y dylai athro/athrawes ymgynghorol gydag arbenigedd mewn addysg meithrin gael eu gwahodd i ymuno a'r Panel Gweithredol. Mi fyddai gan y Panel yna barhad o addysg meithrin (3-5 oed) i'r sector cynradd.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 10 CYFARFOD NESAF

Nododd y CYSAG y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal dydd Mawrth, y 12fed o Hydref 2021 am 2.00 yh.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 yh

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**